## YGG Parc y Tywyn :

# Cytundeb Cartref Ysgol

***Fel rhiant/gwarcheidwad, gwnaf fy ngorau i:***

- Sicrhau bod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon,ar amser a gyda'r cyfarpar priodol.
- Hysbysu'r ysgol am unrhyw broblem a all effeithio ar waith neu ymddygiad fy mhlentyn.
- Cefnogi polisi ymddygiad yr ysgol.
- Cefnogi fy mhlentyn yn ei waith cartref ac unrhyw gyfle arall i weithio tu allan i'r ysgol.
- Mynychu nosweithiau rhieni er mwyn trafod cynnydd fy mhlentyn.
- Annog fy mhlentyn i wisgo gwisg ysgol.

***Fel athrawon o'r ysgol gwnawn ein gorau i:***

- Gofalu am ddiogelwch ac hapusrwydd eich plentyn mewn awyrgylch gydnaws Gymreig a Chymraeg
- Annog y plant i wneud eu gorau bob amser.
- Annog y plant i ddilyn ein rheolau (Cymreictod, Parch, Cyfrifoldeb, Dyfalbarhad)
- Darparu cwricwlwm cytbwys i gyfarfod ag anghenion eich plentyn
- Rhoi gwybodaeth am gynnydd eich plentyn ynghyd â materion cyffredinol trwy gyfarfodydd rhieni, cylchlythyron ac adroddiadau
- Ymdrin yn sensitif gyda phryderon neu gwynion
- Hysbysu'r rhieni am beth a sut mae'r athrawon yn dysgu'r plant.
- Hysbysu'r rhieni am weithgareddau'r ysgol yn rheolaidd drwy wefan yr ysgol, X, negeseuon app, cylchlythyron ag ati.
- Hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da sy'n cefnogi pawb i ddeall manteision mynychu'r ysgol.

***Fel disgybl o'r ysgol, gwnaf fy ngorau i:***

- Bod yn bresennol yn rheolaidd a phrydlon
- Ymddwyn â pharch, bod yn gwrtais a chymwynasgar tuag at ddisgyblion eraill ac aelodau'r staff.
- Cadw traddodiadau Cymraeg a Chymreig yr ysgol bob amser
- Dod â chyfarpar a dillad angenrheidiol
- Cwblhau fy holl waith dosbarth a gwaith cartref hyd eithaf fy ngallu
- Cymryd mantais o'r cyfleoedd a gynigir
- Gofalu am amgylchedd yr ysgol
- Anelu i gyrraedd safon uchel o ymddygiad pan yn cynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau academaidd, crefyddol, diwylliadol a chorfforol.

Enw'r plentyn: ____________________________________________________________

Llofnod: ___________________________________________________(Rhiant)

Llofnod: ___________________________________________________ (Athro)